Tribiwnlys Addysg Cymru

Education Tribunal for Wales

## Ffurflen gais am apêl

Mae'n bwysig eich bod yn darllen ein llyfryn canllaw, *Canllawiau apêl (ETW2)* cyn llenwi'r ffurflen hon.

Llenwch y ffurflen hon yn glir gan ddefnyddio inc **DU**.

Os nad oes gennych gynrychiolydd neu berson arall i'ch helpu i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â'n llinell gymorth ar **0300 025 9800** a byddwn yn eich helpu i'w llenwi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Cysylltwch â'r Tribiwnlys i gael fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon.

Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.

### 1. Dewis Iaith

| | | | |
|---|---|---|---|
| A fyddai'n well gennych ohebu â ni yn: | Cymraeg ☐ | Saesneg ☐ | Y ddwy iaith ☐ |
| A fyddai'n well gennych gyfathrebu â ni ar lafar yn: | Cymraeg ☐ | Saesneg ☐ | Y ddwy iaith ☐ |
| A fyddai'n well gennych siarad Cymraeg neu Saesneg yn eich Gwrandawiad Tribiwnlys? | Cymraeg ☐ | Saesneg ☐ | Y ddwy iaith ☐ |

### 2. Ieithoedd a Siaredir

Pa ieithoedd ydych chi'n eu defnyddio i gyfathrebu? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)  Cymraeg ☐  Saesneg ☐  Arall ☐

Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

**3.** Rydym am gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y Tribiwnlysoedd. Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg, ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, oes yna reswm penodol pam eich bod chi wedi dewis cyfathrebu yn Saesneg?
*(Ni fydd eich ateb yn effeithio ar sylwedd eich achos mewn unrhyw ffordd)*

## Adran 1 – Gwybodaeth am y plentyn neu berson ifanc

Mae'r apêl yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc canlynol:

Enwau Cyntaf:

Cyfenw:

Dyddiad Geni:

Rhyw:

Nodwch unrhyw ofynion a dymuniadau cyfathrebu y plentyn neu'r person ifanc os gwelwch yn dda:

Nodwch fod pob cyfeiriad yn y ffurflen hon at y plentyn neu'r person ifanc yn golygu'r plentyn neu'r person ifanc y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

## Adran 2 – Gwybodaeth am y person sy'n gwneud yr apêl

Teitl: Cyfenw: Enwau Cyntaf:

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn: dydd min nos

Symudol:

Cyfeiriad e-bost:

Pa iaith ydych chi yn dymuno i ni ei defnyddio wrth ohebu? Cymraeg ☐ Saesneg ☐

**Esboniwch sut mae gennych hawl i wneud yr apêl hon.** Dyma'r opsiynau:

a) **Y plentyn neu'r person ifanc**, yn ymarfer ei hawl i wneud apêl ei hun, **neu**

b) **Rhiant i blentyn**, yn ymarfer hawl rhiant i wneud apêl (dylech ddweud hefyd a ydych yn warcheidwad, rhiant maeth neu yn berson arall gyda chyfrifoldeb rhiant), **neu**

c) **Cynrychiolydd neu gyfaill achos**, sy'n arfer hawl plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc heb alluedd. Rhowch ragor o dystiolaeth o'ch penodiad fel cynrychiolydd neu gyfaill achos gyda'ch cais.

## Adran 3 – Gwybodaeth am bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn neu yn ei rannu

**(Peidiwch â llenwi adran 3 os yw'ch apêl yn ymwneud â pherson ifanc sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol)**

Mae'n **rhaid** i chi nodi enwau a chyfeiriadau'r **holl** bersonau a sefydliadau sydd wedi neu sydd yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal am y plentyn. Os nad oes modd i chi ddarparu'r wybodaeth hon, **rhaid** esbonio pam.

Mae'n **rhaid** i chi hefyd gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybod i **bob** person a sefydliad sydd â neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal am y plentyn, eich bod yn bwriadu gwneud apêl i'r Tribiwnlys. Os nad oes modd i chi ddarparu'r wybodaeth hon, **rhaid** esbonio pam.

---

### Rhiant un

Llenwch y manylion ar gyfer "Rhiant un" dim ond os yw'r wybodaeth yn wahanol i'r person sy'n gwneud yr apêl a enwir yn Adran 2 uchod.

Teitl: Cyfenw: Enwau Cyntaf:

Perthynas â'r plentyn: (er enghraifft, rhiant, gwarcheidwad, rhiant maeth neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn: dydd min nos

Symudol:

Cyfeiriad e-bost:

Ydych chi wedi dweud wrth y person hwn eich bod yn bwriadu cyflwyno apêl?

## Rhiant dau

Teitl: | Cyfenw: | Enwau Cyntaf:

Perthynas â'r plentyn: (er enghraifft, rhiant, gwarcheidwad, rhiant maeth neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant)

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn: dydd | min nos

Symudol:

Cyfeiriad e-bost:

Ydych chi wedi dweud wrth y person hwn eich bod yn bwriadu cyflwyno apêl?

---

## Unigolion neu sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant

A oes unrhyw berson neu sefydliad yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn? Oes ☐ Nac Oes ☐

Os felly, rhowch enw a chyfeiriad pob unigolyn neu sefydliad:

Ydych chi wedi rhoi gwybod iddynt eich bod yn cyflwyno apêl? (Cyfeiriwch at bob un ar wahân)

**Rhesymau**

Os na allwch gadarnhau manylion cyswllt yr holl bersonau neu sefydliadau sydd â chyfrifoldebau rhiant neu gyfrifoldeb gofal dros y plentyn, neu os na allwch roi gwybod i'r holl bersonau neu sefydliadau eich bod yn apelio, rhowch wybod pam yma: (Cyfeiriwch at bob un ar wahân)

## Adran 4 – Gwybodaeth am unrhyw gynrychiolydd a benodwyd gan y person sy'n gwneud yr apêl

Nid oes rhaid i chi gael cynrychiolydd, ond os oes gennych un, rhowch eu manylion isod:

Teitl: Cyfenw: Enwau Cyntaf:

Sefydliad (os o gwbl):

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn: dydd min nos

Symudol:

Cyfeiriad e-bost:

A yw eich cynrychiolydd yn gyfreithiol gymwys? Ydy ☐ Nac ydy ☐

## Adran 5 – Gwybodaeth am unrhyw gyfaill achos sydd wedi'i benodi ar gyfer y plentyn

Os oes gan y plentyn gyfaill achos, rhowch y manylion cyswllt yma:

Teitl: Cyfenw: Enwau Cyntaf:

Cyfeiriad (a chod post):

Rhif ffôn: dydd min nos

Symudol:

Cyfeiriad e-bost:

## Adran 6 – Derbyn gwybodaeth am yr apêl

Gallwn anfon papurau a dogfennau at **un** o'r bobl a enwir ar y ffurflen hon yn unig.
Dewiswch un o'r opsiynau canlynol:

Y person sy'n gwneud yr apêl ☐

Eu Cynrychiolydd ☐

Er mwyn arbed costau ac i ymdrin â'ch apêl mor gyflym â phosibl, hoffem gysylltu â chi ar e-bost.

Os byddwch yn fodlon inni wneud hynny, ticiwch y blwch hwn. ☐

Os gallwn helpu trwy gyfieithu ein llythyrau atoch i iaith arall neu i iaith Braille, neu os oes gennych unrhyw anghenion arbennig eraill, fe wnawn ein gorau i gwrdd â'ch anghenion (yn rhad ac am ddim). Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu y bydd yn cymryd mwy o amser i ni baratoi eich apêl.
Dywedwch wrthym beth yw eich anghenion:

## Adran 7 – Addasiadau rhesymol

Os oes gennych chi neu rywun sy'n dod i'r gwrandawiad gyda chi anabledd, neu os oes gennych unrhyw anghenion eraill a allai effeithio ar eich gallu i gymryd rhan ym mhroses y tribiwnlys, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl. Yna bydd y tribiwnlys yn nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith. Gallai hyn gynnwys mynediad i gadair olwyn neu ddefnyddio dolen glyw.

Rhowch **enw'r person** ac unrhyw addasiadau rhesymol y gofynnwyd amdanynt:

Rhowch **enw'r person** ac unrhyw addasiadau arbennig y gofynnwyd amdanynt:

## Adran 8 – Y llythyr penderfyniad oddi wrth yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach

Rhaid i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach roi hysbysiad ysgrifenedig i blant, rhieni plant a phobl ifanc, ynghylch ei benderfyniad a'r hawl i apelio i'r Tribiwnlys. Rhaid rhoi dyddiad y llythyr penderfyniad er mwyn i'ch apêl gael ei brosesu.

Pa awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach wnaeth y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn?

| |
|---|
| |

Ar ba ddyddiad y cawsoch lythyr yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad yr awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach?

| |
|---|
| |

---

## Adran 9 – Cynllun datblygu unigol

Oes gan y plentyn neu'r person ifanc gynllun datblygu unigol? Oes ☐ Nac Oes ☐

Os **'OES'**, beth yw dyddiad y cynllun cyfredol?

| |
|---|
| |

## Adran 10 – Dywedwch wrthym beth rydych yn apelio yn ei erbyn

Isod, mae rhestr o resymau y mae modd apelio i'r Tribiwnlys yn eu cylch.

**Dewiswch yr holl resymau sy'n gymwys i chi.**

Byddwch yn esbonio'ch rhesymau ac yn cyflwyno tystiolaeth yn eich datganiad achos.

- Penderfyniad gan sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ☐
- (Yn achos person ifanc) Penderfyniad gan awdurdod lleol ynghylch a oes angen llunio a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) ☐
- Y disgrifiad o ADY person mewn CDU (gan gynnwys dyddiadau dechrau, adolygu a gorffen arfaethedig) ☐
- Y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) mewn CDU, neu'r ffaith nad yw'r DDdY ofynnol yn y CDU ☐
- A yw CDU yn dweud y dylid darparu DDdY yn Gymraeg ☐
- Yr ysgol neu'r sefydliad, neu fwyd a llety, a enwir mewn CDU at ddiben diwallu anghenion rhesymol y plentyn am DDdY ☐
- Yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben sicrhau lle yn yr ysgol, neu os na enwir ysgol mewn CDU at ddiben sicrhau lle ☐
- Penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio â newid CDU pan fo plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc wedi gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried CDU sy'n cael ei gynnal gan ysgol a gynhelir ☐
- Penderfyniad gan yr awdurdod lleol i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am CDU, y mae ysgol yn ei gynnal, pan fo'r plentyn neu ei riant, person ifanc neu gorff llywodraethu'r ysgol honno wedi gofyn i'r awdurdod lleol ei gynnal yn lle'r ysgol ☐
- Penderfyniad i roi'r gorau i gynnal CDU ☐
- Gwrthodiad i benderfynu ar fater ar y sail nad oes newid mewn anghenion neu unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad blaenorol ☐

Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth, cewch apelio ynghylch y canlynol:

- Penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a oes gan berson a gedwir yn gaeth ADY ☐
- Penderfyniad yr awdurdod cartref ynghylch a fydd angen cynnal CDU ar gyfer person a gedwir yn gaeth pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw ☐
- Disgrifiad o ADY y person mewn CDU ☐
- Y DDdY mewn CDU, neu'r ffaith nad yw'r DDdY wedi'i chynnwys yn y cynllun (DDdY sy'n gymwys ar ôl rhyddhau'r unigolyn o leoliad cadw) ☐
- A yw CDU yn dweud y dylid darparu DDdY yn Gymraeg ☐
- Yr ysgol neu'r sefydliad, neu fwyd a llety, a enwir mewn CDU, i ddiwallu anghenion rhesymol am DDdY (yr unigolyn i gael ei dderbyn ar ôl ei ryddhau o leoliad cadw) ☐
- Yr ysgol a enwir mewn CDU at ddiben sicrhau lle yn yr ysgol (sef derbyn lle yn yr ysgol pan gaiff ei ryddhau o leoliad cadw) ☐
- Os na enwir ysgol mewn CDU ar gyfer sicrhau lle i'r unigolyn ar ôl ei ryddhau o leoliad cadw ☐
- Gwrthodiad i benderfynu a oes gan berson a gedwir yn gaeth ADY ar y sail bod: ☐
  - ei awdurdod cartref wedi gwneud penderfyniad o'r fath yn y gorffennol; a
  - nad yw anghenion y person wedi newid yn sylweddol; ac
  - nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol naill ai a y penderfyniad hwnnw neu ar benderfyniad a fydd angen cynllun pan gaiff ei ryddhau.

**(Os nad yw'r apêl yn ymwneud â'r ysgol a enwir, peidiwch â llenwi adrannau 10 ac 11)**

## Adran 11 – Yr ysgol a enwir yn y CDU

Os yw'r apêl am yr ysgol a enwir yn y CDU, rhaid i chi ddweud wrthym am yr ysgol y byddai'n well gennych iddi gael ei henwi.

Enw'r ysgol:

Cyfeiriad (a chod post):

Os nad ydych yn gallu enwi ysgol benodol, disgrifiwch y math o ysgol yr hoffech chi i'r plentyn fynd iddi yn y blwch:

## Adran 12 – Yr ysgol a enwir yn y CDU

Os yw'r apêl am yr ysgol a enwir yn y CDU, rhaid i chi anfon yr wybodaeth ganlynol atom. Cyflwynwch gopïau o unrhyw lythyrau sy'n cadarnhau'r wybodaeth ofynnol.

- Os yw'n ysgol a gynhelir (a ariennir gan yr awdurdod lleol):
  - Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi dweud wrth yr awdurdod lleol sy'n ariannu'r ysgol a gynhelir eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried gorchymyn lleoliad yn ei ysgol.
- Os yw'n ysgol annibynnol:
  - Cadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol annibynnol bod lle ar gael yn yr ysgol, a chadarnhad eich bod wedi dweud wrtho eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried gorchymyn lleoliad yn ei ysgol.
- Os yw'n unrhyw sefydliad arall heblaw ysgol a gynhelir neu ysgol annibynnol:
  - Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi sefydlu a oes darpariaeth addas ar gael yn y sefydliad.

## Adran 13 – Eich rhesymau am apelio, a'r canlyniad a ddymunwch

Dywedwch wrthym am eich rhesymau am apelio a'r **canlyniad a ddymunwch**. Gallwch ddefnyddio'r bwlch yma a pharhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

Rhowch gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, ond cofiwch y cewch ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth bellach yn eich datganiad achos. Bydd rhaid cyflwyno'ch datganiad achos o fewn 8 wythnos i'r llythyr penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Mae'r un dyddiad cau yn gymwys i'r cais hwn, ond nid oes rhaid cyflwyno'r ddau ar yr un pryd.

| |
|---|
| |

Os hoffech i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn i newid rhan o CDU, dywedwch pa adran o'r CDU yr hoffech ei weld yn newid:

| |
|---|
| |

## Adran 14 – Datrys anghydfod

Dywedwch wrthym am unrhyw camau a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod.

Gallwch ddefnyddio'r bwlch yma a pharhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

## Adran 15 – Cydgrynhoi apeliadau anghenion dysgu ychwanegol a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd

Pe baem yn derbyn mwy nag un apêl am yr un plentyn ar unrhyw un adeg rydym yn debygol o geisio cydgrynhoi'r apeliadau fel eu bod yn cael eu clywed yr un pryd.

Rydym hefyd yn delio gyda hawliadau am wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Os hoffech i ni anfon copi o'n ffurflen hawliadau a'n llyfryn "Canllawiau hawlio" atoch ticiwch y blwch hwn. ☐

Os oes hawliad gwahaniaethu ar sail Anabledd sy'n bodoli eisoes efo'r Tribiwnlys, hoffech chi i'r apêl gael ei chlywed yr un pryd? Hoffwn ☐ Na Hoffwn ☐

## Adran 16 – Gwybodaeth monitro

Byddai o gymorth i ni pe gallech ddewis un o'r canlynol. Nid oes rhaid i chi, ond mae'r wybodaeth yn rhoi ystadegau defnyddiol i ni. Rydym yn cadw'r holl wybodaeth yn gyfrinachol. Rydym wedi cofrestru o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Tarddiad ethnig y plentyn yw:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bangladeshaidd | ☐ | Affricanaidd Du | ☐ | Caribïaidd Du | ☐ | Du Arall | ☐ |
| Tseiniaidd | ☐ | Indiaidd | ☐ | Pacistanaidd | ☐ | Gwyn | ☐ |

Arall (nodwch os gwelwch yn dda):

## Adran 17 – Y gwrandawiad

Efallai y bydd yn bosibl i benderfynu eich apêl ar sail y papurau. Mae hynny'n golygu y bydd y panel yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir gan bob parti ac na fydd gwrandawiad llafar yn cymryd lle.

Os ydych yn hapus i'ch achos cael ei benderfynu ar sail y papurau, ticiwch y blwch hwn. ☐

Os cynhelir gwrandawiad, byddwn yn gofyn am enwau'ch tystion ac unrhyw ofynion cyfathrebu ar gyfer y rhai a fydd yn dod i'r gwrandawiad, yn nes ymlaen.

## Adran 18 – Eich llofnod

Rhaid i'r cais am apêl gael ei lofnodi gennych chi (hynny yw'r sawl sy'n gwneud yr apêl).

Llofnod:

Enw (MEWN PRIFLYTHRENNAU):

Dyddiad:

**Pwysig**: Rhaid i geisiadau gynnwys llofnod electronig os nad yw'n llofnod â llaw. Os ydych yn cyflwyno drwy e-bost, ychwanegwch lofnod electronig, neu printiwch y cais a'i lofnodi cyn ei sganio a'i anfon.

## Anfon y Cais am apêl atom

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen, gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud copi o'ch cais am apêl a'ch bod wedi ei lofnodi.

Anfonwch y cais am apêl a chopïau o'r holl ddogfennau perthnasol atom:

E-bost: tribiwnlysaddysg@llyw.cymru

NEU

E-bost: tribunal.enquiries@llyw.cymru

NEU

Tribiwnlys Addysg Cymru
Uned Tribiwnlysoedd Cymru
Blwch SP 100
Llandrindod
LD1 9BW

Os oes arnoch angen cymorth, ffoniwch **0300 025 9800**.

## Rhestr wirio

**RHAID** i'r wybodaeth a nodir yma fod yn rhan o'ch cais. Sicrhewch eich bod yn ei chynnwys yn y ffurflen hon, neu'ch bod yn darparu copïau o ddogfennau pan fo gofyn am hynny.

1. Os yw'r apêl am blentyn:

   Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi dweud wrth bawb sydd:

   â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu
   yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu
   yn gofalu am y plentyn

   eich bod yn gwneud apêl. ☐

   Os nad ydych wedi dweud wrth y bobl hyn eich bod yn gwneud apêl, rhowch resymau pam nad ydych wedi dweud wrthynt. ☐

2. Os hoffech i'r Tribiwnlys wneud gorchymyn i leoli mewn ysgol neu sefydliad arall, rhaid i'r apêl gynnwys:

   Enw a chyfeiriad yr ysgol neu'r sefydliad arall ☐

**HEFYD**

Os yw'n ysgol a gynhelir:

Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi dweud wrth yr awdurdod lleol sy'n ariannu'r ysgol a gynhelir eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried gorchymyn lleoliad yn ei ysgol. ☐
**Rhaid i hwn fod yn gopi o'r llythyr a anfonwyd at yr awdurdod lleol.**

Os yw'n ysgol annibynnol:

Cadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol annibynnol bod lle ar gael yn yr ysgol, a chadarnhad eich bod wedi dweud wrtho eich bod yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried gorchymyn lleoliad yn ei ysgol. ☐
**Mae'n rhaid i'r rhain fod yn gopïau o unrhyw lythyrau at y perchennog, neu gan y perchennog sy'n cadarnhau'r wybodaeth hon**.

Os yw'n unrhyw sefydliad arall heblaw ysgol a gynhelir neu ysgol annibynnol:

Cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi sefydlu a oes darpariaeth addas ar gael yn y sefydliad. ☐

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54387
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg